**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**9/1/24**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Llinos Edwards, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2993** **Sylwadau'r Cadeirydd:** Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb a diolchodd am yr holl weithgareddau a fu dros y Nadolig. Anfonwyd dymuniadau am adferiad iechyd buan i Heledd Jones.

**2994** **Ymddiheuriadau:** Heledd Jones, Rhodri Prys Jones

**2995** **Datganiadau o fuddiant:** Dim.

**2996** **Cofnodion cyfarfod 5/12/23:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**2997** **Materion y Clerc:**

i. Atgoffwyd am yr angen i fudiadau wneud cais am nawdd cymunedol mewn da bryd.

ii. TG yn y Neuadd: derbyniwyd addewid y bydd cwmni MAD wedi cwblhau'r gwaith erbyn y cyfarfod nesaf. Mynegodd Dewi Wyn Jones a Alwyn E Jones eu dymuniad i fod yn bresennol i gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r offer..

iii. Cyfarfod gwasanaeth T3 yn Llandderfel: Derbyniwyd adroddiad Alwyn E Jones a'r Cadeirydd; diolchwyd am lythyr Cynghorydd Dilwyn Morgan yn ei rôl fel Aelod Cabinet a chyfrifoldeb am Oedolion Iechyd a Llesiant a Phencampwr Oed Gyfeillgar Gwynedd. Diolchwyd hefyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans ac i Mabon ap Gwynfor am eu hymdrechion hwythau i gael y bws i ymweld a'r pentref ac i gario disgyblion Ysgol Godre'r Berwyn o'r Coleg.

iv. (2977) Trefniadau Noson Goffi: cytunwyd i ohirio tan yr Hydref oherwydd prysurdeb a gweithgareddau eraill.
Cytunwyd yn y cyfamser i wneud cyfraniad i Frecwast y Ffermwyr. Bydd Huw Pierce Roberts yn cynrychioli'r Cyngor yno.

v. Dwr Cymru: derbyniwyd copi o lythyr a anfonwyd gan Dwr Cymru at Mabon ap Gwynfor a diolchwyd i Alwyn M Roberts am ei ymholiadau yntau. Mae Dwr Cymru'n cytuno fod yna broblem yn yr ardal ac yn rhagweld adnewyddu rhyw 2km o beipiau – ond nid yw'r amserlen yn wybyddus hyd yn hyn.

**2998** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd, a fu'n ceisio datrysiad i newid annisgwyl i amserlen T3, a'r effaith andwyol mae hyn yn ei gael ar ddisgyblion Ysgol

Godre'r Berwyn i fynychu cyrsiau galwedigaethol yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gorfod cyllido bws mini i gludo'r disgyblion adref.

Mae'n disgwyl ymateb buan i'r broblem parcio wrth Ty'n Ddôl. Hefyd mae'n disgwyl ymateb am y broblem dŵr yn lloches bws Y Lon.

Derbyniodd gwynion eto am gerbydau'n goddiweddid wrth gyffordd Stryd y Prys; mae'n mynnu datrysiad i'r perygl hwn ac mae wedi ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor i geisio ei gefnogaeth yntau.

**2999 Un Llais Cymru**: Daw Cofnodion o gyfarfod Ionawr 2024 o Ardal Meirionnydd yn fuan.

**3000 Is-bwyllgorau**

1. Grwp Datblygu: bydd y grŵp yn cyfarfod yn fuan iawn i drafod cynnwys y papur "Tai dan arweiniad y Gymuned" a materion eraill.
2. Mynwentydd: cafwyd adroddiad o gyfarfod a oedd yn cwmpasu gwerthfawrogiad o waith Cynghorwyr yn tacluso cyn y Nadolig, gwaith y Cadeirydd yn llenwi'r tyllau yn y maes parcio, a gwaith taclus iawn Sion Jones yn gofalu am y tir. Cytunwyd i anfon i ddiolch i Alan Jones am drwsio to y porth. Bydd aelodau'n trafod y bywyd gwyllt a'r coed gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd Clerc y Fynwent yn holi'r Brodyr Evans am y gwaith creu mynwent lawnt. Bydd ymholiadau am greu llwybr i gerddwyr at y fynwent; mae cyllid yn y cyfrif i wneud hyn. Adolygwyd y ffioedd a'u codi rhyw 5% o'r hyn a gytunwyd 3 mlynedd yn ôl. Edrychir ar y ffioedd bob rhyw ddwy flynedd yn y dyfodol. Cymeradwyodd y Cynghorwyr yr argymhellion yn yr adroddiad.
3. Bioamrywiaeth: heb gyfarfod yn ffurfiol, ond ymwelodd eryr y môr a fferm Brynllech dros y flwyddyn newydd. Gwelwyd egret bach ar lan afon Lliw yn ddiweddar.
4. Nadolig: diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â'r trefniadau amrywiol; mae'r trigolion yn gwerthfawrogi. Wrth adolygu, cytunwyd i Sion Corn gychwyn toc ar ôl 4.00pm y flwyddyn nesaf; bydd angen goleuadau newydd ar y goeden wrth y garej. Disgwylir anfoneb o'r garej am danwydd y pic-yp, a disgwylir anfonebau eraill hefyd. Diolchwyd i Reilffordd Llyn Tegid am gael benthyg gwisgoedd.
5. Asedau: heb gyfarfod ers Rhagfyr.
6. Cyllid: cyflwynwyd adroddiad manwl yn Rhagfyr.

**3001 Materion Ariannol**

a. Derbyniadau ac anfonebau'r mis - cymeradwywyd talu:

| | |
|---|---|
| HG Webb Designs | 250.00 |
| Dwr Cymru | 343.90 |
| Y Neuadd bentref | 750.00 |
| Costau swyddfa | 300.00 |
| Aelodaeth SLCC | 85.00 |
| CCF – nwyddau glanhau toiledau | 21.60 |
| CThEF | 232.00 |
| Coeden Dolig | 66.00 |

Cyflog Clerc + ad-daliad; Ad-daliad cyflog SAC ;
Cytundeb glanhau Cyfleusterau Cyhoeddus

b. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad at y Neuadd.
c. Cytunwyd i gyfrannu £100 tuag at Brecwast y Ffermwyr.

**3002 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr – mae Canolfan Bro Tegid yn brysur dros ben gyda gweithgareddau lles.

**3003 Cynllunio:** Cadarnhawyd cymeradwyaeth y Cynghorwyr mewn ymgynghoriad e-bost ar gais **NP5/71/LB95,** Pant y ceubren.

**3004 Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn

i. Un Llais Cymru:
   a. Dyddiadau Hyfforddiant
   b. Gweminar: Teithiau hunan-dywys rhyngweithiol ar gyfer pentrefi, trefi a chymunedau. **Dyddiad:** Dydd Iau 25 Ionawr 2024 (Zoom) 10:30-12:00
   c. Sesiynau hyfforddi (am ddim i Gynghorwyr) sy'n ymwneud â sgiliau digidol sy'n cael eu cynnal ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2024.
ii. Llwybr Cei: diolchwyd i Arwel Morris, Warden Parc Cenedlaethol Eryri am drefnu ail wynebu rhannau o'r llwybr.
iii. Triathlon – cydymdeimlwyd gyda'r trefnwyr lleol am y trafferthion a gafwyd gyda threfnwyr y gorffennol. Cytunwyd i ail adrodd awgrymiadau a wnaed yn y gorffennol a nodi'r golled ariannol i fusnesau lleol. Byddai'r Cyngor yn barod i anfon cynrychiolydd i unrhyw gyfarfod trefnu.
iv. Parc Cenedlaethol Eryri: Bydd Swyddogion Ymgysylltu yn cyfarfod y Clerc a Chlerc Y Bala 10.30am 16/1/24 Syrjeri.
v. Cais am gefnogaeth gan Rhodri Francis, Ymgyrchydd Cyfiawnder: ar ôl trafodaeth, cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd.

**3005 Materion lleol y Cynghorwyr -** dim

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 6/2/24 yn y Neuadd bentref.

*Amser gorffen: 8.45pm*